CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**6 Rhagfyr 2022**
Teitl:	**Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 2 2022/23 a'r Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd ddiweddaraf gyda throsglwyddiadau rhwng 2022/23, 2023/24 a 2024/25.**
Pwrpas yr adroddiad:	**Er mwyn i'r Aelodau ystyried y newidiadau sydd angen eu gwneud i'r Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd.**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael**

1. Y Sefyllfa Gyffredinol

Mae cyfanswm cyllideb y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd ar gyfer 2022/23, 2023/24 a 2024/25 wedi aros yr un peth gyda chyfanswm o £107.4m. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 wedi gostwng £8.8m ac mae llawer o gynlluniau wedi'u hailbroffilio i'r Rhaglenni Cyfalaf ar gyfer 2023/24 a 2024/25. Yn ogystal, ychwanegwyd cynlluniau newydd a gymeradwywyd i'r rhaglen ar gyfer 2022/23. Mae'r manylion yn adran 2 isod. Mae'n debygol y bydd y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn gostwng eto wrth i gynlluniau lithro. Bydd hyn yn rhan o'r broses ar gyfer pennu'r gyllideb yn y flwyddyn newydd a bydd yn cael ei adrodd i'r Cabinet.

Mae Atodiad A yn cynnwys manylion ynghylch gwariant diweddaraf y Rhaglen Gyfalaf hyd at ddiwedd mis Medi. Cyfanswm y gwariant hyd yn hyn yw £8.3m, o gymharu â chyfanswm diweddaraf y gyllideb ar gyfer y flwyddyn sy'n £37.2m.

2. Newidiadau i'r Rhaglen

Ers cyflwyno adroddiad monitro chwarter 1 i'r Cabinet ar 6 Medi, mae angen cynnwys y cynlluniau newydd a'r cyllid ychwanegol canlynol yn y Rhaglen Gyfalaf ynghyd â nodi'r cynlluniau a ailbroffiliwyd rhwng blynyddoedd ariannol:

Cynlluniau newydd a ariennir gan grantiau:

- +£1.952m – Seilwaith Bysiau Ceredigion
- +£300k – Y Gronfa Gofal Canolraddol – Llety Diogelu i Blant
- +£161k – Y Gronfa Tai â Gofal
- +£250k – Dyraniad Craidd ar gyfer Bysiau Rhanbarthol
- +£273k – Cynllun Mannau Gwefru Preswyl ar y Stryd

Cyllid grant ychwanegol ar gyfer cynlluniau a oedd eisoes yn bodoli:

- +£798k – Offer cegin ychwanegol ar gyfer ysgolion er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol am Ddim
- +£195k – Hwb Cymunedol Llanbedr Pont Steffan
- +£10k – Y Gronfa Teithio Llesol – Arian Craidd 2022/23
- +£456k – Cymorth i Ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (yn lle cyllid y Cyngor)
- +£30k – Y Gronfa Cartrefi Clyd
- +£320k – Darpariaeth Gofal Plant ar gyfer cynlluniau Grantiau Bychain
- +£152k – Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Cyllid ychwanegol oddi wrth y Cyngor – naill ai cynlluniau newydd neu rai a oedd eisoes yn bodoli:

- +£105k – Gwaith Brys mewn Canolfannau Llesiant ar gyfer 2022/23 (a £300k ychwanegol ar gyfer 2023/24)
- +£200k – Arian cyfatebol cynnig cam 2 Chwaraeon Cymru
- +£191k – Hwb Cymunedol Llanbedr Pont Steffan
- +£240k – Caeau Chwaraeon Artiffisial
- +£400k – Gwelliannau Cyffredinol i'r Priffyrdd (er mwyn rhoi cymorth anuniongyrchol i gyllideb refeniw Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r pwysau yn sgil y cynnydd mewn cyflogau yn ystod y flwyddyn)

Cyllidebau a ailbroffiliwyd (yn bennaf o 2022/23 i 2023/24 a 2024/25):

- -£295k – Newid o system drydan i system wlyb (Ysgol Y Deri)
- -£788k – Darpariaeth Gofal Plant
- -£220k – Hwb Cymraeg yn yr Ysgol Gymraeg
- -£525k – Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff
- -£2.739m – Prosiectau Ffyniant Bro
- -£3m – Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth / Aberaeron
- -£1.6m – Y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau
- -£500k – Datblygiad Tai Hafan y Waun
- -£625k – Gwaith Trin Carthion
- -£81k – Llety â Chymorth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Cyllideb a ailbroffiliwyd i 2022/23 o 2023/24:

- +£225k – Cerbydau newydd i'r fflyd

Mae'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd yn cael ei diweddaru nawr oherwydd maint y newidiadau sydd eu hangen. Mae'n bwysig bod y rhaglen yn rhoi darlun mwy realistig o'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn, fel arall bydd yn debygol o arwain at adroddiadau am danwariant sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd y broses ar gyfer pennu'r gyllideb yn rhoi ystyriaeth ehangach a mwy strategol i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y dyfodol.

3. Derbyniadau Cyfalaf

Hyd yn hyn cafwyd £91k o Dderbyniadau Cyfalaf sy'n cynnwys £17k o ad-daliad Grant Cyfleusterau i'r Anabl, £24k a gafwyd drwy werthu cerbydau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, a £50k o ad-daliad am fenthyciad o dan y Cynllun Perchentyaeth Cost Isel, tuag at y targed o £100k.

4. Y Rhaglen Gyfalaf Ddiweddaraf ar gyfer 2022/23

Mae Atodiad A yn cynnwys adroddiad monitro'r rhaglen gyfalaf fel yr oedd ar ddiwedd chwarter 2 2022/23 ac mae'n cynnwys y newidiadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae Atodiad B yn cynnwys y rhaglen gyfalaf 3 blynedd ddiweddaraf sydd hefyd yn cynnwys y newidiadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Nid oes unrhyw newid i gyfanswm y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd flaenorol.

Yn ôl yr awgrymiadau blaenorol oddi wrth Lywodraeth Cymru (cyn Datganiad y Canghellor yn yr Hydref) bydd cynnydd o 20% mewn cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2023/24 a 2024/25 sydd eisoes wedi'i adlewyrchu yn y rhaglen, a bydd cyllid ychwanegol ar gyfer datgarboneiddio, y disgwylir iddo fod wedi'i neilltuo ond ni chafwyd cyhoeddiad eto. Dylai'r sefyllfa gael ei chadarnhau pan fydd Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Cymru'n cael ei gyhoeddi yng nghanol mis Rhagfyr.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei monitro bob yn ail fis gan y Grŵp Monitro Cyfalaf, ac mae'r Grŵp yn ystyried materion megis cynnydd prosiectau, trosglwyddiadau, llithriant a'r goblygiadau a ddaw yn eu sgil ac maent yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Datblygu.

Asesiad Effaith Integredig:	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam - Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid i wasanaeth na pholisi.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Hirdymor: Integreiddio: Cydweithio: Cynnwys: Atal:
Argymhelliad / Argymhellion:	(a) Nodi Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 2 2022/23 fel y nodir yn Atodiad A. (b) Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiweddaraf ar gyfer 2022/23 - 2024/25 sy'n dod i gyfanswm o £107.4m ar gyfer y 3 blynedd, fel y nodir yn Atodiad B.
Rhesymau dros y penderfyniad:	Er mwyn diweddaru'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 - 2024/25.

Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol.
Goblygiadau Ariannol a Chaffael:	Wedi'u nodi yn yr adroddiad.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau o ran Staff:	Dim
Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:	Dim yn uniongyrchol
Risg:	• Ar hyn o bryd mae nifer o risgiau o ran cyfalaf yn ymwneud â chwyddiant ar lafur a deunyddiau ynghyd â materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi. Gallai hyn arwain at naill ai prisiau tendr na ellir eu fforddio neu gallai olygu bod angen ail-ddylunio cynlluniau neu fwy o gyllid ynghyd â phosibilrwydd y bydd yn cymryd fwy o amser i gyflawni / cwblhau'r cynlluniau.
Pwerau Statudol:	Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992
Papurau Cefndir:	Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd
Atodiadau:	A – Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 2 2022/23 B – Y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd Ddiweddaraf
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Swyddog Adrodd:	Justin Davies – Rheolwr Corfforaethol Cyllid Craidd
Dyddiad:	21 Tachwedd, 2022

Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2022/23

Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf hyd at ddiwedd mis Medi 2022	Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr y Gwasanaeth	Cyfanswm y Gyllideb Ddiweddaraf £'000	Cyfanswm y Gwariant hyd yn hyn £'000	Y gyllideb sydd ar ôl £'000	Nodiadau ar gyfer y Cabinet
Ysgolion a Diwylliant					
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)	NJ	**5,322**	2,648	2,674	Dim materion i'w nodi.
Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod	NJ	**909**	34	875	Dim materion i'w nodi.
Darpariaeth Gofal Plant gan gynnwys Dyffryn Aeron a Llwyn yr Eos	NJ	**365**	50	315	Dim materion i'w nodi.
Offer cegin ychwanegol ar gyfer ysgolion er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol am Ddim	NJ	**1,368**	237	1,131	Bydd gwariant yn ystod yr hydref.
Canolfan trochi iaith a bloc newydd o ddosbarthiadau	NJ	**30**	-	30	Dim materion i'w nodi.
Ysgolion Bro	NJ	**456**	1	455	Dim materion i'w nodi.
Cymorth i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	NJ	**456**	-	456	Dim materion i'w nodi.
Ysgolion - gwaith cyfalaf ychwanegol	NJ	**2,102**	700	1,402	Tanwariant posib - bydd angen cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i ailbroffilio i mewn i 23/24.
System wresogi o dan y llawr - Ysgolion	NJ	**196**	3	193	Dim materion i'w nodi.
Gwaith Brys mewn Ysgolion	NJ	**150**	-	150	Dim materion i'w nodi.
Cyfanswm - Ysgolion a Diwylliant		**11,354**	**3,674**	**7,680**	
Porth Cymorth Cynnar					
Hwb Cymunedol - Llanbedr Pont Steffan	CY	**1,440**	10	1,430	Dim materion i'w nodi.
Caeau Chwaraeon Artiffisial	CY	**815**	20	795	Dim materion i'w nodi.
Pyllau Nofio Aberaeron a Chalon Tysul Cyf	CY	**280**	-	280	Dim materion i'w nodi.
Cynigion Cam 2 Chwaraeon Cymru	CY	**200**		200	Dim materion i'w nodi.
Canolfannau Hamdden (Gwaith Brys)	CY	**105**		105	Dim materion i'w nodi.
Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar		**2,840**	**31**	**2,809**	

Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2022/23

Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf hyd at ddiwedd mis Medi 2022	Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr y Gwasanaeth	Cyfanswm y Gyllideb Ddiweddaraf £'000	Cyfanswm y Gwariant hyd yn hyn £'000	Y gyllideb sydd ar ôl £'000	Nodiadau ar gyfer y Cabinet
Yr Economi ac Adfywio					
Gwaith Trin Carthion	LG	**100**	20	80	Dim materion i'w nodi.
Gwaith Brys Arall	LG	**100**	25	75	Yn dilyn rhai blynyddoedd o danwariant, gwnaed nifer o ddarnau brys o waith gan gynnwys gwaith ar y biomas a'r lifft yn swyddfeydd Penmorfa – o ganlyniad i hynny, eisoes rhagwelir gorwariant o £35k ar gyfer y flwyddyn. Bydd unrhyw waith brys arall yn cynyddu'r gorwariant. Bydd penawdau eraill yn y gyllideb yn cael eu hadolygu i ganfod cyllid ychwanegol.
Adeiladau - Buddsoddi i Arbed	LG	**175**	2	173	Dim materion i'w nodi.
Cyfleusterau Cyhoeddus - Mecanweithiau Codi Tâl	LG	**50**	45	5	Dim materion i'w nodi.
Rhaglen Datblygu Asedau	AD	**183**	2	181	Dim materion i'w nodi.
Neuadd y Farchnad Aberteifi	AD	**380**	229	151	Gwneir taliadau i YCA Aberteifi pan fyddant yn cyflwyno hawliadau. Mae Swyddogion yn gweithio'n agos â'r YCA i'w cynorthwyo gyda'r cynllun hwn.
Rhaglen Adnewyddu Pomprennau	AD	**50**	37	13	Dim materion i'w nodi.
Gwelliannau i Seilwaith Gwyrdd Canol Tref Llanbedr Pont Steffan	AD	**82**	73	9	Cwblhawyd y gwaith hwn - bydd ychydig o danwariant yn erbyn grant Llywodraeth Cymru - mae'r swyddogion yn trafod hyn gyda Llywodraeth Cymru.
Grant Gwella Mynediad	AD	**79**	22	57	Dim materion i'w nodi.
Y themâu sy'n cael blaenoriaeth gan y Bartneriaeth Cyflwyno Adferiad Gwyrdd	AD	**35**	2	33	Dim materion i'w nodi.
Arian Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur	AD	**267**	-	267	Dim materion i'w nodi.
Prosiectau Ffyniant Bro	AD	**1,905**	865	1,040	Dim materion i'w nodi.
Y Gronfa Rhwydweithiau Natur - Dalgylch Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi	AD	**450**	-	450	Mae Swyddogion yn trafod ymestyn y prosiect tu hwnt i fis Mawrth 2023. Bydd ychydig o wariant cyfalaf yn cychwyn yn ystod 2022/23, ond bydd ychydig o wariant yn cael ei ddyrannu i 2023/24, yn amodol ar gael cytundeb yr ariannwr.
Trawsnewid Trefi - Prosiect Mash Aberteifi	AD	**540**	-	540	Mae perchennog prosiect Mash Aberteifi yn ceisio ailbroffilio'r prosiect oherwydd y costau cynyddol. Bydd hyn yn cael effaith ar yr amserlen, efallai bydd angen ailgyflwyno'r prosiect i gael caniatâd cynllunio, a fydd yn golygu na fydd yn bosib ei gyflawni yn ystod 22/23. Mae hyn yn cael ei drafod â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.
Cyfanswm - Yr Economi ac Adfywio		**4,396**	**1,320**	**3,076**	

Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2022/23

Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf hyd at ddiwedd mis Medi 2022	Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr y Gwasanaeth	Cyfanswm y Gyllideb Ddiweddaraf £'000	Cyfanswm y Gwariant hyd yn hyn £'000	Y gyllideb sydd ar ôl £'000	Nodiadau ar gyfer y Cabinet
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol					
Ffyrdd	PJ	**200**	4	196	Dim materion i'w nodi.
Pontydd	PJ	**350**	5	345	Dim materion i'w nodi.
Gwasanaethau Amgylcheddol	GJ	**90**	30	60	Dim materion i'w nodi.
Gwelliannau Cyffredinol i'r Priffyrdd	PJ	**1,260**	662	598	Dim materion i'w nodi.
Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus	PJ	**165**	0	165	Dim materion i'w nodi.
Y Rhaglen Goleuadau Stryd	PJ	**57**	61	(4)	Mae ychydig bach o orwariant.
Trawsnewid - cerbydau allyriadau isel iawn	PJ	**364**	367	(3)	Dim materion i'w nodi.
Grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (CLILC)	PJ	**300**	3	297	Dim materion i'w nodi.
Y Gronfa Teithio Llesol - Arian Craidd	PJ	**510**	70	440	Cymeradwywyd £10k o gyllid grant ychwanegol.
Dyraniad Craidd 20mya	PJ	**391**	173	218	Dim materion i'w nodi.
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - Llanrhystud	PJ	**40**	5	35	Dim materion i'w nodi.
Seilwaith Bysiau Ceredigion	PJ	**1,952**	-	1,952	Dim materion i'w nodi.
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre / Y Borth	RLL	**69**	2	67	Dim materion i'w nodi.
Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron	RLL	**69**	34	35	(£11k) - Addaswyd y cynllun grant i gyd-fynd â'r cynnig grant cyfan.
Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth	RLL	**275**	1	274	£18k - Addaswyd y cynllun grant i gyd-fynd â'r cynnig grant cyfan.
Diogelu'r Arfordir yn y Borth ac Ynyslas	RLL	**23**	1	22	Dim materion i'w nodi.
Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Capel Bangor a Thal-y-bont	RLL	**151**	-	151	Dim materion i'w nodi.
Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron / Aberystwyth	RLL	**2,000**	-	2,000	Mae gwaith yn parhau i ddatblygu'r cynlluniau.
Cerbydau Newydd i'r Fflyd	GJ	**845**	406	439	Mae'r Grŵp Datblygu wedi cefnogi rhoi £238k ychwanegol ar gyfer dau lwythwr telesgopig.
Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol	GJ	**24**	24	0	Dim materion i'w nodi.
Cynllun Mannau Gwefru Preswyl ar y Stryd	PJ	**273**	-	273	Dim materion i'w nodi.
Dyraniad Craidd y Gronfa Drafnidiaeth Leol ar gyfer Bysiau Rhanbarthol	PJ	**250**	-	250	Dim materion i'w nodi.
Cyfanswm - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol		**9,658**	**1,847**	**7,811**	

Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2022/23

Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf hyd at ddiwedd mis Medi 2022	Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr y Gwasanaeth	Cyfanswm y Gyllideb Ddiweddaraf £'000	Cyfanswm y Gwariant hyd yn hyn £'000	Y gyllideb sydd ar ôl £'000	Nodiadau ar gyfer y Cabinet
Porth Gofal					
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	LH	**1,400**	520	880	Dim materion i'w nodi.
Grant Hyrwyddo Annibyniaeth i Bobl yn eu Cartrefi eu Hunain	LH	**229**	-	229	Dim materion i'w nodi.
Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi	LH	**100**	15	85	Dim materion i'w nodi.
Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol	LH	**146**	37	109	Dim materion i'w nodi.
Grantiau Mesurau Ynni Cartrefi Clyd	LH	**486**	122	364	Mae'r Gronfa Cartrefi Clyd wedi cymeradwyo i ymestyn y dyddiad cwblhau hyd fis Mai 23.
Cylch Caron	NL	**252**	-	252	Efallai bydd ychydig o'r arian yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn - bydd angen trosglwyddo gweddill y gyllideb i 23/24.
Camu Mlaen - Canolfan Steffan	NL	**78**	70	8	Dim materion i'w nodi.
Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl	NL	**223**	(0)	223	Mae'r cynlluniau'n cael eu datblygu.
Canolfannau Dydd - Gwelliannau i Ddiogelu'r Cyhoedd a Gwelliannau Amgylcheddol	NL	**224**	8	216	Mae'r contractwyr ar y safle.
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prosiect Dementia Hafan Deg	NL	**370**	6	364	Dim materion i'w nodi.
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Llety Diogel i Blant	NL	**300**	-	300	Dim materion i'w nodi.
Uwchraddio Cartrefi Preswyl	NL	**999**	299	700	Dim materion i'w nodi.
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prynu ac Adnewyddu Eiddo	LH	**290**	26	264	Dim materion i'w nodi.
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Llety â chymorth ar gyfer pobl sy'n byw gydag anawsterau dysgu	LH	**421**	-	421	Dim materion i'w nodi.
Y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau	LH	**400**	-	400	Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo i ymestyn dyddiad gorffen y cynllun tan 31 Mawrth 2024 (a chymryd y bydd tystiolaeth glir ar gael erbyn diwedd mis Chwefror 2023 sy'n dangos bod pethau'n mynd rhagddynt a bod y cynlluniau wedi cael eu cymeradwyo gan y Cabinet). Mae £1.6m o'r cyllid nawr wedi'i gynnwys yn 2023/24.
Y Gronfa Tai â Gofal	LH	**161**	27	134	Dim materion i'w nodi.
Cyfanswm - Porth Gofal		**6,079**	**1,130**	**4,949**	

Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2022/23

Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf hyd at ddiwedd mis Medi 2022	Rheolwyr Corfforaethol / Rheolwyr y Gwasanaeth	Cyfanswm y Gyllideb Ddiweddaraf £'000	Cyfanswm y Gwariant hyd yn hyn £'000	Y gyllideb sydd ar ôl £'000	Nodiadau ar gyfer y Cabinet
Cyswllt Cwsmeriaid					
Caledwedd TGCh	AM	**297**	203	94	Dim materion i'w nodi.
Ffonau Symudol Clyfar	AM	**30**	27	3	Dim materion i'w nodi.
Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid		**327**	**230**	**97**	
Cyllid a Chaffael					
Cynllun Grantiau Cymunedol	JD	**200**	44	156	Yr ymrwymiadau hyd at ddiwedd mis Medi yw tua £114k.
Cyfanswm - Cyllid a Chaffael		**200**	**44**	**156**	
Gwasanaethau Democrataidd					
Uwchraddio Cyfarpar Siambr y Cyngor - Cam 2	LE	**32**	39	(7)	Mae ychydig bach o orwariant.
Cyfanswm - Gwasanaethau Democrataidd		**32**	**39**	**(7)**	
Cyllid i'w ddyrannu		**1,477**	-	1,477	
		36,363	**8,316**	**28,047**	
Ymrwymiadau a Gariwyd Drosodd					
Ymrwymiadau a Gariwyd Drosodd (Hen Gynlluniau)		**-**	3	(3)	Dim materion i'w nodi.
		-	**3**	**(3)**	
CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH		**36,363**	**8,319**	**28,044**	
Arian wrth gefn	JD	**276**	-	276	Dim materion i'w nodi.
Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant	JD	**516**	-	516	Dim materion i'w nodi.
Cyfanswm - Arian wrth Gefn		**792**	**-**	**792**	
CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL		**37,155**	**8,319**	**28,836**	

Y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd Arfaethedig ar gyfer 2022/23 - 2024/25

Atodiad B

Ysgolion

	Cyllideb arfaethedig 2022/23 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2023/24 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2024/25 CYFANSWM £'000	
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)	5,322	11,218	-	CSC/Grant
Offer cegin ychwanegol ar gyfer ysgolion er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol am Ddim	1,368	-	-	Grant
Canolfan trochi iaith a bloc newydd o ddosbarthiadau	30	3,920	1,425	Grant
Ysgolion Bro	456			Grant
Cymorth i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	456			Grant
Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod	909	-	-	Grant
Darpariaeth Gofal Plant	365	788	-	Grant
Ysgolion - gwaith cyfalaf ychwanegol	2,102	-	-	Grant
System wresogi o dan y llawr - Ysgolion	196	445	150	CSC
Gwaith Brys mewn Ysgolion	150	150	150	CSC
Cyfanswm - Ysgolion	**11,354**	**16,521**	**1,725**	

Porth Cymorth Cynnar

	Cyllideb arfaethedig 2022/23 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2023/24 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2024/25 CYFANSWM £'000	
Hwb Cymunedol - Llanbedr Pont Steffan	1,440	-	-	CSC/Grant
Caeau Chwaraeon Artiffisial	815	-	-	CSC/Grant
Pyllau Nofio Aberaeron a Chalon Tysul Cyf	280	-	-	Grant
Cynnig Cam 2 Chwaraeon Cymru	200			CSC
Gwaith Brys mewn Canolfannau Hamdden	105	300	-	CSC
Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar	**2,840**	**300**	**-**	

Yr Economi ac Adfywio

	Cyllideb arfaethedig 2022/23 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2023/24 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2024/25 CYFANSWM £'000	
Gwaith Trin Carthion	100	625	-	CSC
Gwaith Brys Arall	100	100	100	CSC
Adeiladau - Buddsoddi i Arbed	175	175	175	CSC
Cyfleusterau Cyhoeddus - Mecanweithiau Codi Tâl	50	-	-	CSC
Rhaglen Datblygu Asedau	183	-	-	Grant
Neuadd y Farchnad Aberteifi	380	-	-	CSC
Rhaglen Adnewyddu Pomprennau	50	50	-	CSC
Gwelliannau i Seilwaith Gwyrdd Canol Tref Llanbedr Pont Steffan	82	-	-	Grant
Grant Gwella Mynediad	79	103	103	Grant
Grant Adferiad Gwyrdd	35	-	-	Grant
Y Gronfa Rhwydweithiau Natur - Dalgylch Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi	450	-	-	Grant
Arian Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur	267	-	-	Grant
Prosiectau Ffyniant Bro	1,905	5,564	3,382	Grant
Trawsnewid Trefi - Prosiect Mash Aberteifi	540			Grant
Datblygiad Tai Hafan y Waun	-	500	500	CSC
Cyfanswm - Yr Economi ac Adfywio	**4,396**	**7,117**	**4,260**	

Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

	Cyllideb arfaethedig 2022/23 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2023/24 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2024/25 CYFANSWM £'000	
Ffyrdd	200	200	200	CSC
Pontydd	350	150	150	CSC
Gwasanaethau Amgylcheddol	90	60	60	CSC
Gwelliannau Cyffredinol i'r Priffyrdd	1,260	700	700	CSC
Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus	165	-	-	Grant
Y Rhaglen Goleuadau Stryd	57	-	-	CSC
Trawsnewid - cerbydau allyriadau isel iawn	364	-	-	Grant
Grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (CLILC)	300	-	-	Grant
Cynllun Mannau Gwefru Preswyl ar y Stryd	273	-	-	Grant
Cyllid Craidd y Gronfa Drafnidiaeth Leol ar gyfer y Coridor Bysiau	250			Grant
Y Gronfa Teithio Llesol - Arian Craidd	510	-	-	Grant
Dyraniad Craidd 20mya	391	-	-	Grant
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - Llanrhystud	40	-	-	Grant
Seilwaith Bysiau Ceredigion	1,952	-	-	Grant
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre / Y Borth	69	-	-	Grant
Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Capel Bangor a Thal-y-bont	151			Grant
Manylion Dylunio Gwaith Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron	69	-	-	Grant
Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth	275	-	-	Grant
Diogelu'r Arfordir yn y Borth ac Ynyslas	23	-	-	Grant
Cynlluniau Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth	2,000	18,000	3,000	CSC/Grant
Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol	24	-	-	Grant
Cerbydau Newydd i'r Fflyd	845	237	238	CSC
Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff	-	1,025	-	CSC
Cyfanswm - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	**9,658**	**20,372**	**4,348**	

	Cyllideb arfaethedig 2022/23 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2023/24 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2024/25 CYFANSWM £'000	
Porth Gofal				
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	1,400	1,400	1,400	CSC
Grant Hyrwyddo Annibyniaeth i Bobl yn eu Cartrefi eu Hunain	229	-	-	Grant
Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi	100	-	-	Grant / Benthyciad
Cylch Caron	252	-	-	CSC/Grant
Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol	146	146	-	Grant
Grantiau Mesurau Ynni Cartrefi Clyd	486	-	-	Grant
Camu Mlaen - Canolfan Steffan	78	-	-	CSC
Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl	223	100	100	CSC
Canolfannau Dydd - Gwelliannau i Ddiogelu'r Cyhoedd a Gwelliannau Amgylcheddol	224	-	-	CSC
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Llety Diogel i Blant	300			Grant
Uwchraddio Cartrefi Preswyl	999	400	-	CSC
Y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau	400	1,600	-	Grant
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Anableddau Dysgu Aberteifi	421			Grant
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prosiect Dementia Hafan Deg	370	-	-	CSC/Grant
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prynu ac Adnewyddu Eiddo	290	-	-	Grant
Y Gronfa Tai â Gofal	161	-	-	Grant
Cyfanswm - Porth Ceredigion	6,079	3,646	1,500	

	Cyllideb arfaethedig 2022/23	Cyllideb ddangosol 2023/24	Cyllideb ddangosol 2024/25	
	CYFANSWM	CYFANSWM	CYFANSWM	
	£'000	£'000	£'000	
Cyswllt Cwsmeriaid				
Caledwedd TGCh	297	100	100	CSC
Ffonau Symudol Clyfar	30	-	-	CSC
Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid	327	100	100	

	Cyllideb arfaethedig 2022/23 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2023/24 CYFANSWM £'000	Cyllideb ddangosol 2024/25 CYFANSWM £'000	
Cyllid a Chaffael				
Cynllun Grantiau Cymunedol	200	200	200	**CSC**
Cyfanswm - Cyllid a Chaffael	200	200	200	
Gwasanaethau Democrataidd				
Uwchraddio Cyfarpar Siambr y Cyngor - Cam 2	32	-	-	**CSC/Grant**
Cyfanswm - Gwasanaethau Democrataidd	32	-	-	
Cyllid i'w ddyrannu	1,477	1,137	1,400	
CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH	36,363	49,393	13,533	
Arian wrth gefn	276	350	350	
Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant	516	2,400	4,200	
Cyfanswm - Arian wrth Gefn	792	2,750	4,550	
CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL	37,155	52,143	18,083	